

CYFARFOD:	<b>BWRDD PENSIWN</b>
DYDDIAD:	<b>6 MAWRTH 2023</b>
TEITL:	<b>DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO</b>
PWRPAS:	<b>I gyflwyno ac adolygu'r Datganiad Strategaeth Cyllido</b>
AWDUR:	<b>DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI</b>

---

## **1. CYFLWYNIAD**

- 1.1 Mae'n ofynnol arnom i adolygu a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) teirblynyddol erbyn 31 Mawrth 2023 yn dilyn y prisiad teirblynyddol.
- 1.2 Fel rhan o'r adolygiad bydd yn rhaid i'r awdurdod sy'n gweinyddu ymgynghori gyda'r cyflogwyr sy'n rhan o'r cynllun, yr actiwari ac ymgynghorwyr y gronfa, ac unrhyw rai eraill rydym yn ystyried yn addas.

## **2. PRISIAD ACTIWARAIDD**

- 2.1 Mae prisiad actiwaraidd tair blynyddol y Gronfa yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Cynhaliwyd cyfarfod cyflogwyr ar 26 Hydref 2022 pan gyflwynwyd a thrafodwyd y canlyniadau actiwaraidd rhagarweiniol. Mae adroddiadau terfynol yn cael eu paratoi ar gyfer pob cyflogwr ar hyn o bryd.
- 2.2 Paratowyd y prisiad actiwaraidd gan ddefnyddio rhagdybiaethau y cytunwyd arnynt gyda'r actiwari. Mae'r cyfnodau adfer diffyg ar gyfer y gwahanol gategoriâu o gyflogwr yn ddarvoudus ac yn gyson gyda'r prisiad blaenorol.
- 2.3 Dangosodd y canlyniadau rhagarweiniol a ddarparwyd ym mis Hydref 2022 fod y mwyafrif o gyflogwyr bellach gyda gwarged ac felly nid oes ganddynt unrhyw daliadau diffyg i'w gwneud dros y tair blynedd nesaf. Bydd y cyflogwyr yn y sefyllfa yma yn gweld gostyngiad mewn cyfraniadau trwy gyfradd eilaidd negyddol. Nid yw pob cyflogwr yn y sefyllfa yma ac felly bydd gofyn iddyn nhw dalu cyfraniad diffyg bob mis.

## **3. DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO DRAFFT (DSC)**

- 3.1 Gweler copi drafft o'r DSC yn atodiad A.
- 3.2 Mae'r Pwyllgor wedi cadarnhau'r DSC drafft a pholisïau cysylltiedig cyn y cyfnod ymgynghori.

## **4. CRYNODEB**

Gofynnir i'r Bwrdd adolygu'r Datganiad Strategaeth Cyllido.

Yn dilyn y broses ymgynghori bydd y Pwyllgor Pensiynau yn cael fersiwn derfynol o'r Datganiad Strategaeth Cyllido i'w fabwysiadu erbyn 31 Mawrth 2023.